

# Taliad Annibyniaeth Personol



Adran Gwaith  
a Phensiynau

## Gwybodaeth ychwanegol

### Sut y byddwn yn eich talu

Byddwn fel arfer yn talu eich arian i mewn i gyfrif. Bydd llawer o fanciau a chymdeithasau adeiladu yn caniatáu i chi gasglu eich arian yn swyddfa'r post.

Byddwn yn dweud wrthyhych pan fyddwn yn gwneud y taliad cyntaf a faint y byddwn yn ei dalu. Byddwn yn dweud wrthyhych os bydd y swm a dalwn i mewn i'r cyfrif yn newid.

### Y cyfrif rydych am ei ddefnyddio

Gall *cyfrif* fod yn gyfrif banc, cymdeithas adeiladu, undeb credyd neu gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post<sup>©</sup>.

Gall y cyfrif fod yn eich enw chi, neu gyfrif ar y cyd.

Gallwch ddefnyddio cyfrif rhywun arall os:

- bydd telerau ac amodau ei gyfrif yn caniatáu hyn, ac os
- bydd yn cytuno i chi ddefnyddio ei gyfrif, ac os
- byddwch yn siŵr y bydd yn defnyddio eich arian yn ffordd y dywedwch wrtho.

Os byddwch yn defnyddio cyfrif undeb credyd, mae'n rhaid i chi roi manylion cyfrif eich undeb credyd.

Os ydych yn benodai neu'n gynrychiolydd a benodwyd yn gyfreithiol, dim ond yn eich enw chi y dylai'r cyfrif fod.

Os ydych yn benodai corfforaethol, dylai'r cyfrif fod yn enw'r sefydliad.

### Cael gwybod faint o arian rydym wedi'i dalu i mewn i'r cyfrif

Gallwch wirio eich taliadau ar gyfriflenni eich cyfrif. Efallai y bydd y cyfriflenni'n dangos eich rhif Yswiriant Gwladol (YG) wrth ymyl unrhyw daliadau a wnaed gennym. Os credwch fod taliad yn anghywir, cysylltwch â'r swyddfa sy'n eich talu ar unwaith.

### Os byddwn yn talu gormod o arian i chi

Mae gennym yr hawl i adennill unrhyw arian a delir i chi nad oes gennych hawl i'w gael. Efallai mai'r rheswm dros hyn yw oherwydd y ffordd y mae'r systemau taliadau yn gweithio. Er enghraifft, efallai y byddwch yn rhoi gwybodaeth i ni sy'n golygu nad oes gennych hawl i gael gymaint o arian. Weithiau ni allwn newid y swm sydd eisoes wedi'i dalu i chi. Mae hyn yn golygu y byddwn wedi talu arian i chi nad oes gennych hawl i'w gael. Byddwn yn cysylltu â chi cyn adennill unrhyw arian.

**PIP1(AI)W**  
**Mawrth 2015**

## Help y gallai fod ei angen arnoch

Os credwch y bydd angen help neu gymorth arnoch i lenwi'r ffurflen, gallwch:

- gofyn i ffrind, aelod o'ch teulu neu gynrychiolydd i'ch helpu, neu
  - cysylltu â sefydliad cymorth lleol a all rhoi help a chymorth annibynnol i chi.
- Gallwch weld eu manylion ar-lein, yn eich llyfrgell leol neu yn y llyfr ffôn.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am fudd-daliadau a gwasanaethau, gan gynnwys y gwasanaeth Cyngorydd Budd-daliadau, ar ein gwefan

[www.gov.uk/benefits](http://www.gov.uk/benefits) drwy deipio'r enw perthnasol yn y cyfleuster chwilio.

## Sut mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth

Pan fyddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch, gallwn ddefnyddio'r wybodaeth ar gyfer unrhyw un o'n dibenion. Mae'r rhain yn cynnwys delio gyda:

- budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol
- cynhaliaeth plant
- gwaith a hyfforddiant
- cynllunio ariannol ar gyfer ymddeoliad
- cynlluniau pensiwn galwedigaethol a phersonol.

Efallai y cawn wybodaeth amdanoch gan eraill am unrhyw un o'n dibenion os yw'r gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny. Efallai y byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth gyda sefydliadau penodol eraill os yw'r gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny.

I gael mwy o wybodaeth am y ffordd rydym yn defnyddio gwybodaeth, ymelwch â'n gwefan [www.gov.uk/dwp/personal-information-charter](http://www.gov.uk/dwp/personal-information-charter) neu gysylltu ag unrhyw un o'n swyddfeydd.o'n swyddfeydd.